



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ehangu Darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar: Canllawiau Cam 2 i Awdurdodau Lleol

Hydref 2022

Cynnwys

Adran Un: Cyfeiriad Strategol.....	3
Adran Dau: Meini Prawf ar gyfer Targedu'r Gwaith o Ehangu yn ystod Cam 2.....	5
Adran Tri: Gofal Plant Dechrau'n Deg mewn Ardaloedd Ehangu	10
Adran Pedwar: Gofynion Adrodd.....	11
Adran Pump: Yr hyn y mae angen ichi ei wneud nesaf	12
Atodiad	13

Adran Un: Cyfeiriad Strategol

Mae nifer o ysgogwyr polisi wedi arwain at ehangu darpariaeth y blynyddoedd cynnar.

Yn gynharach eleni, ym mis Mawrth 2022, cafodd y Cynllun Plant a Phobl Ifanc¹ ei gyhoeddi sy'n nodi'r hyn y bydd Llywodraeth Cymru (y byddwn ni) yn ei wneud i gefnogi plant a phobl ifanc sy'n tyfu i fyny, ac yn byw ac yn gweithio, yng Nghymru. Un o'r saith blaenoriaeth cyffredinol yw "Dylai pob plentyn gael y dechrau gorau mewn bywyd, gan gynnwys gwasanaethau blynyddoedd cynnar da a chymorth i rieni neu ofalwyr. Dylent gael eu cefnogi gartref, mewn gofal plant ac yn yr ysgol, ac wrth iddynt symud rhyngddynt."

Yn 2019, lansiodd ein gweledigaeth ar gyfer system Addysg a Gofal Plentynod Cynnar gyfannol yng Nghymru². Rydym yn dechrau ar daith deng mlynedd i fabwysiadu dull Addysg a Gofal Plentynod Cynnar i blant rhwng 0 a 5 oed. Bydd hyn yn golygu sicrhau bod ein darpariaeth i blant 0-5 oed yn canolbwyntio ar ddatblygu anghenion cymdeithasol, emosiynol, gwybyddol a chorfforol plant mewn modd cyfannol, er mwyn cefnogi llesiant a dysgu gydol oes. Un o amcanion sylfaenol y dull hwn yw sicrhau bod cymaint o blant â phosibl yn gallu manteisio ar ddarpariaeth o ansawdd uchel yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddatblygu ein rhaglenni presennol ar gyfer y blynyddoedd cynnar, gyda'r nod o greu system ymatebol, sy'n fwy cydgysylltiedig ac sy'n rhoi anghenion unigryw pob plentyn wrth wraidd y system honno. Mae'r gwaith hwnnw'n cael ei arwain gan y Rhaglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar³; rhaglen sydd wedi'i chyd-awduro ac sy'n cynnwys Byrddau braenaru Gwasanaethau Cyhoeddus ledled Cymru. Mae'r rhaglen yn profi dull mwy cydlynol, integredig a phenodol o weithio ar gyfer y blynyddoedd cynnar, er mwyn sicrhau bod plant o bob cefndir yn cael y dechrau gorau mewn bywyd.

Mae ein Rhaglen Lywodraethu ddiweddaraf yn ein hymrwymo i barhau i gefnogi ein rhaglen flaenllaw Dechrau'n Deg ac, yn unol â'r Cytundeb Cydweithio gyda Phlaid Cymru, rydym wedi estyn yr ymrwymiad hwnnw **er mwyn ehangu darpariaeth y blynyddoedd cynnar yn raddol i gynnwys pob plentyn dwy oed, gyda phwyslais penodol ar gryfhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg.**

Rydym yn defnyddio dull tri cham i ehangu'r ddarpariaeth:

1. Cafodd y cam cyntaf yn y gwaith o ehangu Dechrau'n Deg ei lansio ym mis Medi 2022, a bydd yn cynnwys pob un o bedair elfen y rhaglen bresennol: ymweliadau lechyd ychwanegol, cymorth ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu plant, cymorth rhianta a gofal plant o ansawdd uchel. Rydym yn

¹ [Cynllun Plant a Phobl Ifanc | LLYW.CYMRU](#)

² [Datganiad Ysgrifenedig: Lansio dull gweithredu Addysg a Gofal Plentynod Cynnar \(24 Hydref 2019\) | LLYW.CYMRU](#)

³ [Gwerthusiad o Raglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar \(llyw.cymru\)](#)

bwriadu darparu rhaglen Dechrau'n Deg i 2,500 o blant eraill o dan bedair oed yn ystod y cyfnod hwn. Bydd hyn yn cynyddu nifer y plant sy'n manteisio ar y cynllun i 38,500 bob blwyddyn.

2. Bydd Cam 2 yn canolbwyntio ar gyflwyno'r elfen o'r rhaglen sy'n ymwneud â gofal plant rhan amser o ansawdd uchel i blant 2-3 oed, o fis Ebrill 2023.
3. Bydd Cam 3 yn cwmpasu'r hyn y gall fod ei angen i symud i raglen 'Dechrau'n Deg' gyffredinol i bob plentyn ledled Cymru.

Er mwyn rhoi Cam 2 ar waith, mae angen canllawiau clir a chyson i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cael yr wybodaeth a'r cyfeiriad sydd eu hangen arnynt i lywio cynlluniau ehangu sy'n adlewyrchu'r **blaenoriaethau lefel uchel** canlynol:

- sicrhau bod deilliannau datblygiad pob plentyn yn cefnogi'r dechrau gorau mewn bywyd, yn enwedig i'n plant mwyaf difreintiedig;
- mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a lleddfau rhai o effeithiau amddifadedd;
- cefnogi a chryfhau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg; a
- mynd i'r afael â bylchau o ran y ddarpariaeth sydd ar gael.

Adran Dau: Meini Prawf ar gyfer Targedu'r Gwaith o Ehangu yn ystod Cam 2

Diben y canllawiau hyn yw helpu awdurdodau lleol i ddatblygu cynlluniau ehangu er mwyn bod yn barod i gyflwyno gofal plant Dechrau'n Deg mewn ardaloedd newydd o fis Medi 2023 ymlaen. Yn hanesyddol, roedd Dechrau'n Deg yn rhaglen wedi'i thargedu'n ddaearyddol, a oedd yn defnyddio data ar fudd-daliadau incwm, sy'n ddangosydd procsi ar gyfer tlodi, er mwyn targedu ardaloedd â'r ganran uchaf o blant rhwng 0 a 3 oed sy'n byw ar aelwydydd sy'n manteisio ar fudd-daliadau incwm.

Nodwyd yr ardaloedd hyn drwy ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, a data o'r Adran Gwaith a Phensiynau a Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Mae'r data hyn wedi'u trefnu ar sail Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is.

Mae'r dull lefel uchel hwn o dargedu cymorth yn parhau i fod yn addas i'r diben, yn ogystal â bod yn dryloyw ac yn seiliedig ar sail dystiolaeth gadarn sy'n dangos pam mae rhai ardaloedd penodol o fewn cwrpas y cynlluniau ehangu ac nid ardaloedd eraill.

Cydnabuwyd yn y canllawiau ar gyfer Cam 1, mai'r bedwaredd flaenoriaeth, sef mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth bresennol a oedd yn debygol o nodi ardaloedd lle bydd angen rhagor o amser er mwyn sicrhau bod darpariaeth ar gael – oherwydd y gallai fod angen rhywfaint o fuddsoddiad cyfalaf, ac oherwydd bod y gwaith o ddatblygu seilwaith yn gallu cymryd amser. Awgrymwyd yn y canllawiau ar gyfer Cam 1 y dylid defnyddio elfen o gasglu gwybodaeth/data. Dylech ddangos yn eich cynlluniau ar gyfer Cam 2 sut yr ydych yn defnyddio'r wybodaeth honno.

Wrth ddyrannu cyllid ychwanegol er mwyn ehangu elfen gofal plant darpariaeth Dechrau'n Deg yng Nghymru, yn y bôn rydym yn ychwanegu at effaith y rhaglen yn genedlaethol. Mae deall lle bydd gwasanaethau Dechrau'n Deg sydd wedi'u targedu'n ddaearyddol yn symud ar lefel yr awdurdod lleol yn flaenoriaeth, a bydd angen nodi hyn yn glir mewn cynlluniau cyflawni lleol ar gyfer y gwaith o ehangu.

Cyllid Ychwanegol a Thargedau

Byddwch yn cael dyraniadau refeniw dangosol, sydd wedi'u clustnodi at ddibenion ehangu yn unig, fel rhan o'ch llythyrau dyfarnu'r Grant Plant a Chymunedau ar gyfer 2023-24, a bydd disgwyl ichi ddarparu gwasanaethau i nifer ychwanegol o blant ar sail swm o £4,400 y plentyn.

Er enghraifft – os yw'r dyraniad refeniw dangosol sydd wedi'i glustnodi ichi ar gyfer ehangu'r ddarpariaeth yn £600,000, bydd disgwyl ichi weithio i darged o 136 o blant yn ychwanegol yn cael gofal plant Dechrau'n Deg ($600,000/4,400 = 136$).

Bydd dyraniadau awdurdodau lleol unigol yn dilyn fformiwla bresennol Dechrau'n Deg, sy'n golygu y bydd pob awdurdod lleol yn cael yr un rhan gymesur o'r arian ehangu ag y mae'n ei chael ar gyfer Dechrau'n Deg cyn i'r Grant Plant a Chymunedau gael ei roi ar waith. Bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol gyflwyno

cynlluniau ehangu manwl, a bydd angen cael cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer dyraniadau terfynol.

Ardaloedd Ehangu - Y Fethodoleg

Er mwyn nodi eich ardaloedd ehangu, bydd angen ichi ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru a gwybodaeth yr Adran Gwaith a Phensiynau a roddwyd ichi gan Lywodraeth Cymru. Dyma'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael, a bydd yn dangos ichi pa rai o'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn eich awdurdodau lleol, nad oes gwasanaethau Dechrau'n Deg ar gael ynddynt ar hyn o bryd, sydd bellach yn gymwys ar gyfer ehangu gwasanaethau yn ystod Cam 2.

Mae ffynonellau gwybodaeth eraill, ar y cyd â'ch gwybodaeth leol am eich ardaloedd awdurdod lleol, yn parhau'n hanfodol o ran sicrhau bod gwasanaethau'n cyrraedd y teuluoedd hynny y mae angen cymorth arnynt fwyaf yn yr ardaloedd daearyddol eang a nodwyd. Efallai y byddwch eisoes wedi dechrau gweithio mewn rhai o'r ardaloedd hyn drwy Raglen Trawsnewid y Blynyddoedd Cynnar, ac yn gallu datblygu hyn fel rhan o'r rhaglen ehangu. Ymhlith y ffynonellau gwybodaeth eraill a allai fod o ddefnydd ichi, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt, mae:

- Data ar Brydau Ysgol am Ddim;
- Data gan y Gwasanaethau Cymdeithasol; a
- Data gan y Bwrdd Iechyd.

O ran ychwanegu at effaith rhaglen Dechrau'n Deg, dylid parhau i ehangu i Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is fel y dewis 'diofyn' o hyd. Ond, fel sydd wedi digwydd mewn blynyddoedd blaenorol, os bydd gennych resymau clir, gwrthrychol a dilys am eithrio rhannau penodol o Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is, dylech fod yn rhydd i wneud hynny.

Nodwch: Gwyddom efallai bod bylchau yn yr ardaloedd yn eich awdurdod lleol sy'n cael gwasanaethau Dechrau'n Deg ar hyn o bryd y dylid mynd i'r afael â nhw fel rhan o'r cynlluniau ehangu yn eich barn chi. Yn yr achos hwn, byddwn yn disgwyl ichi ymchwilio i bob ffordd bosibl o ddefnyddio eich dyraniadau cyllid presennol i fynd i'r afael â'r anghysondebau hyn. Ffocws Cam 2 y gwaith o ehangu yw parhau i ychwanegu at effaith Dechrau'n Deg drwy ehangu i Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is newydd.

Cynyddu Darpariaeth Gymraeg

Fel y nodir yng nghanllawiau Cam 1, un o nodau cyffredinol y gwaith o ehangu'r rhaglen Dechrau'n Deg yw ehangu darpariaeth gofal plant blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg. Rydym yn disgwyl gweld cynnydd yn nifer y lleoedd a lleoliadau cyfrwng Cymraeg o ganlyniad i'r ehangu yn ystod Cam 2. Bydd angen i gynlluniau ehangu Cam 2 ddangos sut mae awdurdodau lleol yn cynllunio i gefnogi'r nod hwnnw, a bydd angen darparu manylion penodol ar y blaenoriaethau canlynol:

- cynyddu nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg; a
- chynyddu lleoliadau cyfrwng Cymraeg yn ardaloedd yr awdurdod lleol.

Bydd angen arfer dull strategol er mwyn targedu adnoddau'n effeithiol i sicrhau bod y canlyniadau'n adlewyrchu'r nodau polisi. Er mwyn cyflawni'r amcan o gefnogi a chryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg, bydd angen i awdurdodau lleol ystyried datblygu lleoliadau cyfrwng Cymraeg a darpariaeth sy'n cefnogi'r nod o ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y blynyddoedd cynnar. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y dull a nodwyd mewn cynlluniau ehangu unigol fesul achos.

Gwyddom fod gwasanaethau blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg a phrosesau caffael iaith yn gweithio gorau pan fydd llwybr clir i addysg gynradd a thu hwnt. Fodd bynnag, gwyddom hefyd bod sefydlu gwasanaethau Cymraeg mewn ardaloedd lle nad oeddent yn gyffredin yn hanesyddol yn golygu ein bod yn gallu creu cyfleoedd newydd i gael mynediad i ddarpariaeth Gymraeg. Er mai creu darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg newydd yw nod cynlluniau ehangu Cam 2, gallai'r gweithgarwch gynnwys:

- sefydlu / datblygu darpariaeth Ti a Fi sydd eisoes yn bodoli;
- cysoni darpariaeth gofal plant â darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg sy'n bodoli'n barod ac sydd yn yr arfaeth;
- cefnogi lleoliadau Saesneg i gynnig darpariaeth ddwyieithog a lleoliadau dwyieithog i gynnig darpariaeth Gymraeg a hyrwyddo'r Gymraeg ar draws pob lleoliad (gweler yr Atodiad am ragor o wybodaeth am y categorïau iaith);
- canolbwyntio ar ddatblygu'r gweithlu, gan gynnwys cynyddu sgiliau'r gweithlu a hyrwyddo cyfleoedd gyrfa a lleoliadau mewn colegau ac ysgolion cyfrwng Cymraeg;
- prynu lleoedd gofal plant yn ôl y galw i ddiwallu anghenion, a nodi cyfleoedd ar gyfer cynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg sesiynol o fewn lleoliadau Saesneg neu ddwyieithog i gynyddu cyrhaeddiad a mynediad;
- cynnig cymorth ac arweiniad i rieni sy'n dymuno magu eu plant yn ddwyieithog; a
- meithrin gallu a chefnogi sefydlu lleoliadau newydd, gan gynnwys cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru.

Dylech gyfeirio at y 'Categoriâu Iaith' yn ein canllawiau statudol ar ofal plant. Fe'u rhestrir yn yr atodiad er hwylustod. Mae'n bwysig bod cynlluniau Cam 2 yn ystyried y ffactorau hyn ar y cyd â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg eich awdurdod lleol ac Aseiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant, darpariaeth Cylchoedd Meithrin presennol, a'r gwasanaethau blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg eraill sydd ar gael ar hyn o bryd, er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu cysoni i gefnogi'r nod cyffredinol hwn.

Darperir cyllid o tua £1 miliwn y flwyddyn i'r Mudiad Meithrin er mwyn eu galluogi i sefydlu'r cylchoedd newydd, gan ystyried yr holl ofynion sy'n ymwneud â chyrchu lleoliadau ac adeiladau, recriwtio pwyllgorau rheoli, recriwtio a hyfforddi staff a chefnogi cylchoedd i fod yn gynaliadwy. Mae ymrwymiad wedi ei wneud i agor 60

cylch meithrin arall dros dymor y Senedd hon. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a ddarperir gennych i lywio'r gwaith hwn i ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Mae gan bartneriaeth Cwlwm gyllid i gefnogi'r uchelgais hwn.

Os oes gan eich awdurdod lleol Fforwm Cynllunio Cymraeg mewn Addysg⁴, byddai'n ddefnyddiol ymgynghori â nhw gan ei bod yn debygol y byddant yn gallu helpu gyda'r gwaith o gryfhau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn eich ardal chi.

Hyrwyddo manteision amlieithrwydd

Mae hyrwyddo manteision siarad mwy nag un iaith o oedran cynnar yn bwysig o ran helpu rhieni i wneud dewis doeth am ddarpariaeth gofal plant. Yn eich cynllun mae angen ichi egluro sut y byddwch yn ceisio hyrwyddo manteision siarad mwy nag un iaith o oedran cynnar⁵, er enghraifft, trwy sesiynau Ti a Fi / grwpiau chwarae cynysgol, grwpiau rhianta, dosbarthiadau cynenedigol, cyrsiau teuluol, ymgyrchoedd hyrwyddo, adeiladu ar fentrau sy'n bodoli eisoes a chydweithio â mudiadau eraill fel Mentrau Iaith, yr Urdd, ysgolion cynradd lleol, Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, gan gynnwys aelodau CWLWM i hyrwyddo manteision a manteision amlieithrwydd.

Allgymorth

Mae disgwyl ichi wneud 75% o'ch gwaith ehangu gan ddefnyddio'r dull targedu daearyddol a nodwyd uchod. Fel rhan o'ch cynlluniau ar gyfer Cam 2, gellir cwblhau hyd at 25% o'ch gwaith ehangu drwy Allgymorth Dechrau'n Deg er mwyn sicrhau bod modd ichi gynnwys teuluoedd sy'n byw y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg presennol neu rai newydd, ac er mwyn cynnwys teuluoedd o dan anfantais sy'n byw mewn ardaloedd mwy gwledig.

Drwy hyn, bydd modd i ddarpariaeth gofal plant gynnwys teuluoedd o dan anfantais sy'n byw mewn ardaloedd mwy gwledig, a chefnogi'r gwaith o ehangu darpariaeth Gymraeg.

Ni wnaed unrhyw newidiadau i bolisi Allgymorth Dechrau'n Deg.

Rhwystrau i ehangu

Cydnabuwyd yng Ngham 1 efallai y byddai adegau pan fyddai'r fethodoleg a ddisgrifiwyd yn y ddogfen ganllaw yn golygu eich bod yn nodi ardaloedd o dan eich awdurdod lleol lle y dylai gwasanaethau Dechrau'n Deg fod ar waith er mwyn ychwanegu at effaith y rhaglen, ond lle nad yw'n bosibl cyflawni elfennau hanfodol o'r rhaglen yn ystod Cam 1.

⁴ Gweler tudalen 27 o arweiniad cynlluniau strategol y Gymraeg mewn Addysg am fwy o fanylion - [canllawiau-gynlluniau-strategol-cymraeg-addysg.pdf \(llyw.cymru\)](#)

⁵ Byddwch yn ymwybodol o'r [Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol \(llyw.cymru\)](#)

Er enghraifft, ar gyfer Cam 1 efallai na fyddai'n ymarferol ehangu'r rhaglen i unrhyw ardal newydd nad oes darpariaeth gofal plant eisoes ar gael ynddi, neu mewn pellter cerdded rhesymol ohoni (tua 15 munud ar droed). Efallai na fu sefydlu darpariaeth newydd yn uchelgais realistig i alluogi darparu gwasanaethau gofal plant Dechrau'n Deg o fewn amserlen Cam 1.

Ar gyfer Cam 2 bydd angen ichi edrych eto ar yr ardaloedd hynny a dangos sut rydych yn gwneud cynnydd tuag at gynnig gwasanaethau gofal plant Dechrau'n Deg. Os nad yw gwneud cynnydd pellach yn parhau i fod yn ymarferol, bydd angen blaenoriaethu'r ardaloedd hynny yn y dyfodol.

Gwyddom efallai y bydd yn heriol i rai awdurdodau lleol fodloni eu targedau newydd gan ddefnyddio'r fethodoleg a ddisgrifiwyd yn y canllawiau hyn (targedu daearyddol ar sail ardaloedd o amddifadedd cymharol). Os yw hyn yn wir, gellir cytuno i ddarparu cyfran fwy o'ch gwaith drwy Allgymorth Dechrau'n Deg fel rhan o'ch cynlluniau ar gyfer Cam 2. Bydd angen i Lywodraeth Cymru gytuno ar hynny fesul achos.

Adran Tri: Gofal Plant Dechrau'n Deg mewn Ardaloedd Ehangu

Yng Ngham 2, rydym yn ehangu'r elfen o ofal plant rhan-amser, o ansawdd uchel, drwy raglen Dechrau'n Deg, i deuluoedd a chymunedau newydd yng Nghymru. Yn aml, gofal plant Dechrau'n Deg yw'r elfen fwyaf sylweddol a mwyaf amlwg o'r rhaglen, sy'n cynnwys darpariaeth breifat, darpariaeth a gynhelir a darpariaeth trydydd sector ym mhob rhan o'r sector. Mae dogfen "Dechrau'n Deg – Canllawiau ar gyfer Gofal Plant o Ansawdd Da" yn cael ei diweddarau ar hyn o bryd (a chaiff ei rhannu cyn gynted ag y bydd ar gael) ac mae'r canllawiau hyn yn cynnig hyblygrwydd i awdurdodau lleol benderfynu ar eu darpariaeth gofal plant drwy raglen Dechrau'n Deg. Dylid dilyn canllawiau presennol rhaglen Dechrau'n Deg, a dylai'r gwasanaethau yn eich ardaloedd ehangu adlewyrchu'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig mewn ardaloedd Dechrau'n Deg mwy sefydledig dan eich awdurdod lleol, cyn belled ag y bo'n ymarferol.

Rydyn ni'n disgwyl gweld cynnydd mewn lleoedd a lleoliadau cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg a dwyieithog. Rydym yn cydnabod y bydd trefniadau pontio i'w hystyried mewn perthynas â gallu'r gweithlu a heriau logistaidd eraill. Bydd angen inni gytuno ar drefniadau pontio rhesymol ac ymarferol ag awdurdodau lleol. Byddwn yn cytuno ar y trefniadau hyn fesul achos er mwyn cydnabod heriau lleol unigryw, a bydd angen nodi'r trefniadau hyn yn glir mewn cynlluniau ehangu awdurdodau lleol. Ymhlith yr elfennau y gellid eu llacio mae:

- Llacio'r elfennau ansawdd ychwanegol sy'n rhan o ofal plant Dechrau'n Deg am gyfnod penodol, gan gynnwys y cymwysterau. Fodd bynnag, byddem yn disgwyl i bob lleoliad gofal plant allu dangos eu bod yn gweithio tuag at y cymwysterau uwch sydd eu hangen o fewn dwy flynedd.

Bydd angen ichi ystyried sut y gellir dirwyn y trefniadau pontio hyn i ben yn raddol cyn gynted â phosibl. Bydd angen i hyn ffurfio rhan o'ch cynllun ar gyfer Cam 2.

Bydd angen i awdurdodau lleol sicrhau bod unrhyw wasanaethau a ddatblygir fel rhan o'ch cynlluniau ehangu yn cael eu cydgyssylltu â gwasanaethau allweddol eraill yn eich ardal, fel Teuluoedd yn Gyntaf a'r Cynnig Gofal Plant. Hefyd, sicrhewch fod staff gofal plant sy'n newydd yn cael eu cefnogi i gael hyfforddiant Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu yn unol â'r llwybr cenedlaethol⁶.

Mae gweithio gyda darparwyr gofal plant lleol yn ffordd ymarferol o allu sicrhau bod darpariaeth yn barod i'w roi ar waith erbyn y dyddiad targed, ac yn rhoi cyfle inni sicrhau bod y cynnydd hwnnw yn gynaliadwy ar gyfer y sector. At hynny, gwyddom y bydd yn bosibl inni ddechrau codi safon gofal plant i bawb pan fydd amrywiaeth o ddarparwyr wrthi'n darparu gofal plant Dechrau'n Deg, sy'n cyd-fynd â'n gweledigaeth ehangach ar gyfer Addysg a Gofal Plentynod Cynnar yng Nghymru.

⁶ [Llwybr Hyfforddi Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu Cymru Gyfan \(llyw.cymru\)](#)

Adran Pedwar: Gofynion Adrodd

Yn gyntaf, bydd disgwyl ichi adrodd yn erbyn y targedau newydd, a osodwyd fel rhan o'r gwaith o ehangu Dechrau'n Deg, ar wahân i'r ddarpariaeth graidd sy'n cyfrannu at y targed cenedlaethol o 36,000 o blant y flwyddyn ac adrodd ar Gam 1. Bydd angen inni wybod o leiaf am niferoedd y cynigion a'r nifer sy'n manteisio arnynt ac a yw'r lleoedd yn rhai cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg neu ddwyieithog. Bydd hyn yn ein galluogi i ystyried canlyniadau'r gwerthuso a'r camau nesaf.

Mae trafodaethau yn mynd rhagddynt â Gwasanaeth Gwybodaeth a Dadansoddi'r Llywodraeth am y ffordd orau o gasglu data ar ehangu. Byddwn yn cysylltu â chi maes o law i drafod y dull gweithredu.

[Adran Pump: Yr hyn y mae angen ichi ei wneud nesaf](#)

Nodwch y bydd angen dychwelyd eich cynlluniau i Lywodraeth Cymru erbyn 13 Ionawr 2023 fan bellaf.

Bydd copi o ddata Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2018 a data'r Adran Gwaith a Phensiynau yn cael eu darparu er mwyn eich helpu i nodi eich ardaloedd ehangu a byddwn yn rhannu'r rhain â chi cyn gynted ag y byddant ar gael.

Cysylltwch â'ch [Rheolwr Cyfrif](#) os bydd gennych unrhyw ymholiadau mewn perthynas â'r canllawiau hyn neu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn y templed cynllunio.

Atodiad

Categoriâu iaith

1. Lleoliadau cyfrwng Cymraeg

Cymraeg yw prif iaith y lleoliad o ddydd i ddydd. Cymraeg yw iaith yr holl weithgareddau a'r iaith a ddefnyddir i gyfathrebu â phlant a phobl ifanc. Mae hefyd yn iaith gweinyddiaeth y lleoliad. Mae'r lleoliad yn cyfathrebu â rhieni naill ai drwy gyfrwng y Gymraeg neu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg yn unol â dewis y rhieni. Mae plant o bob cefndir iaith yn cael eu croesawu i'r lleoliad.

2. Lleoliadau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg

Mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu defnyddio ochr yn ochr yn y lleoliad, a cheir elfennau dwyieithog llawn. Defnyddir y Gymraeg a'r Saesneg i gyfathrebu â phlant a phobl ifanc a defnyddir y ddwy iaith ar gyfer gweithgareddau. Caiff y ddwy iaith eu defnyddio ar gyfer gweinyddiaeth y lleoliad. Mae'r lleoliad yn cyfathrebu â rheini naill ai drwy gyfrwng y Gymraeg neu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg yn unol â dewis y rhieni.

3. Lleoliadau cyfrwng Saesneg â rhai elfennau dwyieithog

Saesneg yw prif iaith y lleoliad o ddydd i ddydd, gyda rhai elfennau dwyieithog. Saesneg yw iaith y rhan fwyaf o'r gweithgareddau, a'r brif iaith wrth gyfathrebu â phob plentyn a pherson ifanc. Caiff yr elfen Gymraeg ei darparu drwy gyflwyno rhywfaint o Gymraeg i bob plentyn a pherson ifanc ar ffurf defnyddio cyfarchion, caneuon, straeon a gemau. Mae cyfran y Gymraeg a ddefnyddir yn amrywio yn ôl gallu ieithyddol y staff. Saesneg yw iaith gweinyddiaeth y lleoliad. Mae'r lleoliad yn cyfathrebu â rhieni yn Saesneg.

4. Lleoliadau cyfrwng Saesneg

Saesneg yw iaith y lleoliad o ddydd i ddydd. Saesneg yw iaith yr holl weithgareddau, a'r iaith a ddefnyddir i gyfathrebu â phlant a phobl ifanc. Saesneg hefyd yw iaith gweinyddiaeth y lleoliad. Mae'r lleoliad yn cyfathrebu â rhieni yn Saesneg.